CARYL LEWIS

Dyddiad Geni: 7 Gorffennaf 1978

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Cefais fy magu yn Aberaeron yng nghanol y gwymon a'r gwylanod a'r sglodion a phobl ar eu gwyliau. Symudais pan o'n i'n 12 oed yn ôl i'r fferm deuluol yn Nihewyd.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Feithrin, Ysgol Gynradd ac Ysgol Gyfun Aberaeron; Prifysgol Durham a Choleg Prifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn wrth fy modd gydag arlunio a chanu, ond yn casáu nofio ac yn ceisio darganfod ffordd i'w osgoi drwy'r amser (esgus torri 'nghoes; alergedd i glorîn; mynnu bod y dŵr yn ceisio fy lladd).

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Milfeddyg: pan o'n i yn yr ysgol, bues i ar brofiad gwaith gyda milfeddyg lleol ac ro'n i wrth fy modd. Ro'n i hefyd yn casglu penbyliaid/ adar/ draenogod – unrhyw beth oedd yn symud – ac yn eu cadw dan y gwely . . .

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Wwww, gormod i'w henwi – unrhyw lyfr Cymraeg, dim ots beth.Yn Saesneg, holl lyfrau plant Catherine Cookson, ac unrhyw chwedlau am ysbrydion a mytholeg gwlad Groeg.

Beth yw eich prif ddiddordebau?
Arlunio gan ddefnyddio paent acrylic; rhedeg a chadw'n ffit; tynnu rhaff; canu; bwyta Maltesers yn y bàth, a darllen barddoniaeth.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Cwmni fy nheulu a ffrindiau dwl; fy ast fach Dela; penwythnos gyfan a dim byd i'w wneud, a gweld gwas y neidr.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobl negyddol sy'n lladd ar eraill, snobyddiaeth o unrhyw fath, bobl sy'n anghwrtais wrth bobl hŷn, a phobl sy'n gweiddi pethau dwl at bobl sydd allan yn rhedeg.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Rydw i wastad wedi bod yn hoff o sgwennu, ond dim ond yn lled ddiweddar yr es ati o ddifri.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Dal Hi!*

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Dydw i ddim yn un o'r rheiny sy'n cadw dyddiadur/llyfr nodiadau gyda nhw drwy'r amser. Dwi'n rhy anhrefnus. Bydda i'n meddwl am blot nofel neu stori drwy'r amser, wrth redeg neu wrth siopa. Wedyn bydda i'n mynd i rywle tawel ac arllwys y cyfan ar bapur.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Wrth wrando ar bobl yn siarad – mae gan bawb stori i'w dweud. Hefyd, trwy hap a damwain, cefais ddefnydd un stori wrth i rywun fy nghornelu mewn archfarchnad ac arllwys ei holl hanes i mi.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Peidiwch â gwrando ar unrhyw un sy'n negyddol am eich gwaith. Amgylchynwch eich hun â phobl bositif (a boncyrs, yn ddelfrydol!) ac ewch amdani. Jest eisteddwch lawr a sgwennwch rywbeth NAWR! Hyd yn oed os yw e'n ofnadwy, ma fe'n bwynt cychwyn. (Mae bocs o Maltesers yn help hefyd!).

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi? Mae'n siŵr bod elfennau ohono i ym mhob cymeriad, bron, ond dwi'n ceisio cuddio, a gweud y gwir.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Dal hi!, rwy'n credu, am mai hwnna ddaeth yn gyntaf, ac mae'r cymeriadau i gyd yn agos iawn at fy nghalon i.

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Les, cymeriad yr hyfforddwr yn *Dal Hi!* A mam-gu yn *IAWN BOI?* Les oherwydd ei fod yn dweud y gwir bob tro yn hollol ddiflewyn-ar-dafod. Mam-gu oherwydd fy mod yn meddwl bod y berthynas rhwng pobl ifainc a phobl hŷn yn bwysig iawn.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Ymmm, wel oes, digon o bethau! Rwy methu'n lân â chadw'r tŷ yn daclus. Ma'n stafell i fel nyth brân, a mwy o bapurach yn fy nghar i nag yn y dymp leol. Byddai'n dda gen i fod yn un o'r bobl naturiol daclus hynny.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Unrhyw ddrama gyfnod, MTV ac *A Touch of Frost*.

Beth yw eich hoff fwyd?
Wwwww – Scotch eggs mam-gu Plwy, pys slwtsh mam-gu Plas, a phwdin reis Mam! (Ddim i gyd gyda'i gilydd!)

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Stompiau barddonol, fy ffrindiau, a Del Boy Trotter.

Cefais fy magu yn Aberaeron a threuliais fy mhlentyndod yn chwilota mewn pyllau ar y traeth a chael fy nghnoi gan grancod. Gan fod Mam yn gantores ac yn gweithio gyda'r nos, byddwn i'n mynd i fferm un o'r ddwy fam-gu yn aml (dyna pam dwi'n cyfri bod gen i dair mam yn y bôn!). Ro'n i hefyd yn cael mynd gyda Mam a threulio amser mewn stafelloedd y tu ôl i'r llwyfan – llefydd diddorol ofnadwy!

Roedd caneuon, jôcs, limrigau, barddoniaeth a storïau'n rhan annatod o bob dydd. Roedd yna eiriadur ar bwys y tŷ bach hyd yn oed, fel ein bod yn dysgu gair newydd bob tro yr aem ni i bi-pi!

Dechreuais sgwennu yn yr Ysgol Gyfun pan sylweddolais nad oedd gwaith cartref sgwennu'n teimlo fel gwaith! Pan es i 'mlaen wedyn i Brifysgol Durham i astudio Saesneg, fe agorwyd fy llygaid i holl bosibiliadau llenyddiaeth ac fe es i'n ecseited bost a methu aros i gael dod 'nôl a dechrau sgwennu.

Dwi ddim yn deall pobl sy'n casáu sgwennu a darllen – mae llyfrau'n trin a thrafod bywyd! Os mai mynd allan i'r ddinas am nos Sadwrn fawr yw eich hoff beth, neu ralïo ceir, yna sgwennwch amdano fe! Y peth gorau am sgwennu yw bod ganddoch chi'r rhyddid i ddewis eich pwnc. Hefyd, mae ganddoch chi ryw hawl i fod yn fusneslyd a chael trio cant a mil o wahanol weithgareddau a phrofiadau oherwydd bod rhaid ichi sgwennu amdanyn nhw! Mae popeth rydych chi'n ei wneud – boed yn brofiadau da neu ddrwg – yn ychwanegu at eich sgwennu. Pa esgus gwell sydd i'w gael dros fyw bywyd diddorol?!

Beiro, papur, a bocs o Maltesers amdani, de . . .

Llyfrau gan Caryl Lewis:

Dal Hi! – nofel i oedolion sy'n dod â rhybudd ar y clawr – Anaddas i blant.
Y Lolfa £6.95

Iawn Boi;-)
(Cyfres Pen Dafad)
Y Lolfa £2.95

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
gwales.com
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru